

Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	31/01/2018	Amser Time	4.00 pm

Present:

Cynrychiolaeth o'r Sector Menter:		
Dr Dylan Evans		*Gweler yr ymddiheuriadau isod
Bryn Jones		*Gweler yr ymddiheuriadau isod
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol/Cymuned		
Neville Evans	(NE)	Bryngwran cymunedol
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Edna Jones	(EJ)	Ffermwyr Ifanc
Robin Grove-White		*Gweler yr ymddiheuriadau isod
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt	(ML)	CNC
Dewi Lloyd	(DL)	Datblygu Economaidd CSYM
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Jackie Lewis	(JL)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn		
Eifion Jones	(ELJ)	
Llywodraeth Cymru		

Pwynt	Manylion	Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod	
2	Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth yr aelodau canlynol.	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>Jean Baker</p> <p>Mari Faulkener</p> <p>Mark Gahn</p> <p>Dewi Jones</p> <p>Nigel Peacock</p> <p>Keith Moore</p> <p>Eryl Williams</p> <p>Roedd Dr Dylan Evans, Robin Grove-White a Bryn Jones eisoes wedi cadarnhau y byddent yn mynychu, ond bu rhaid iddynt ganslo ar y funud olaf, ond cadarnhaodd y tri eu cefnogaeth i'r prosiectau</p>	
3	<p>Datgan diddordeb</p> <p>Hysbysodd ML y cyfarfod ei bod hi ar banel SDF yr oedd Telimon wedi gwneud cais iddo am arian cyfatebol. Cytunwyd nad oedd hyn yn ei rhagfarnu rhag cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad ar y cynnig.</p>	
4	<p>Cofnodion cyfarfod 27/9/17</p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir</p> <p>Cynigydd: Neville Evans</p> <p>Eilydd: Molly Lovatt</p>	
5	<p>Materion yn codi.</p> <p>Dywedodd JL fod ymholiadau pellach wedi'u gwneud ynglŷn â chonau traffig ar y bont. Codwyd pryderon ynghylch diogelwch i fodurwyr sy'n derbyn negeseuon wrth yrru. Roedd ymholiadau bellach yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth leol ar fesuryddion parcio.</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



6	<p>Adroddiad Cynnydd</p> <p>Nododd ELJ yn fyr rai o'r pwyntiau allweddol o'r adroddiad cynnydd. Nid oedd gwariant dros y chwarter diwethaf wedi bod mor uchel â'r disgwyl ond roedd disgwyl iddo gael ei ddatrys yn y chwarter nesaf.</p> <p>Tynnodd ELJ sylw at gais i roi ystyriaeth i £9,000 ychwanegol tuag at brynu polytwnnel ar gyfer grŵp y Tyfwyr. Esboniodd JD y rhesymeg, a bod y grŵp wedi dod i sylw nifer o gwmnïau a oedd yn awyddus i arddangos eu cynhyrchion i'r grŵp.</p> <p>Cytunwyd y byddai ffurflen diwygio prosiect yn cael ei dosbarthu trwy e-bost am benderfyniad ar ôl derbyn 3 phris.</p>	<p>JD i ddsbarthu ffurflen diwygio prosiect trwy e-bost</p>
6	<p>Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn</p> <p>Esboniodd DG fod ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi cefnogi'r rhaglen LEADER ar Ynys Môn i ddechrau gyda £330,000 o arian cyfatebol. Bellach, roedd yr ymddiriedolaeth wedi cytuno ar gais pellach am y £191,000 sy'n weddill o'r £521,000 sy'n ofynnol ar gyfer y £3.3M. Heb y gefnogaeth hon, byddai'n rhaid i'r rhaglen ddod o hyd i arian cyfatebol gan brosiectau, gan gyfyngu'r math o waith y gallai ymgymryd ag ef. Cynigiwyd cronfa benodol (Cymunedau Creadigol / Creative Communities) i gynorthwyo grwpiau cymunedol o dan bob thema. Esboniodd DG y byddai'n rhaid i'r cymunedau weithio mewn cydweithrediad â Menter Môn drwy ddull LEADER, a byddai'r arian ar gyfer pob thema yn cael ei dargedu at weithgareddau penodol e.e. dan thema 3 i greu canolfannau cymunedol. Cytunwyd i ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth</p> <p>Cymeradwywyd yn unfrydol y cynnig i greu cronfa Cymunedau Creadigol benodedig.</p>	<p>ELJ i ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth</p>
7	<p>Adborth prosiect</p> <p>Dangoswyd ffilmiau byr o ddigwyddiad Awyr Dywyll yn Nhyddyn Môn a</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	Llandudno	
	<p>Cynigion Prosiect</p> <p>£5,000 Ymgynghoriad Thematig</p> <p>Roedd y £5,000 a ddyranwyd ar gyfer ymgynghoriad thematig dan thema 3 bron wedi ei wario i gyd yn dilyn y digwyddiad Taliad Uniongyrchol a'r ymgynghoriad cychwynnol ar gysyniad Banc Amser. Fel yr oedd wedi digwydd gyda themâu eraill, gofynnwyd am £5,000 pellach.</p> <p>Cymeradwywyd yn unfrydol y £5,000 ychwanegol ar gyfer Ymgynghoriad Thematig dan thema 3.</p> <p>Thema 1</p> <p><u>Telimon (£31,540)</u></p> <p>Esboniodd JL fod y prosiect wedi bod yn datblygu ers peth amser ond wedi esblygu i gynnig ar gyfer sianel deledu leol ar-lein. Byddai'n cynnwys gwirfoddolwyr a byddai'n cynnig hyfforddiant/ profiad sylfaenol. Y bwriad oedd gweithio gyda "phapurau bro" (papurau newydd cymunedol cyfrwng Cymraeg lleol) i ddarparu llwyfan ychwanegol. Gellid darparu'r cynnwys hefyd trwy ffon USB ar gyfer darparwyr llely. Holodd ML am ddadleoli gyda theledu Ynys Môn ond eglurwyd bod hwn yn gysyniad gwahanol, mwy diwylliannol, ac na fyddai'n cystadlu ag ef. Awgrymwyd bod lle i gydwethredu gyda'r orsaf radio leol, Môn FM.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol.</p> <p><u>Sinema Dros Dro (£18,000)</u></p> <p>Esboniodd JL y byddai hwn yn treialu cysyniad o sinema symudol wedi'i lleoli yn Llangefni ond yn teithio i wahanol gymunedau ar Ynys Môn i ddarparu</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>profiad sinema o safon uchel. Byddai hyn yn cael ei wella gan e.e. argraffu tocynnau, popcorn ac ati.</p> <p>Byddai unrhyw refeniw yn cael ei roi'n ôl i'r prosiect. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r math o ffilmiau i'w dangos a pha mor newydd oeddent. Mae'r gost yn gostwng yn gyflym ar ôl y cyfnod rhyddhau cychwynnol.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol.</p> <p>Arolygydd Amgueddfa (£19,700)</p> <p>Byddai'r prosiect hwn yn gweithio gyda hyd at 6 o amgueddfeydd cymunedol ar Ynys Môn, gan ddarparu unigolyn sydd â record cadarn o brofiad i'w mentora a bod yn gyfaill beirniadol. Gellid recordio'r cynnydd ar ffilm, a allai gael ei sgrinio ar teli môn. Nodwyd y gallai rhai o'r sefydliadau fod yn wrthwynebus oherwydd yr angen i rannu gwybodaeth, yn enwedig o natur ariannol. Nodwyd hefyd fod rhai o'r mentrau cymunedol yn atyniadau treftadaeth yn hytrach nag amgueddfeydd yn wir ystyr y gair. Eglurwyd bod y costau'n seiliedig ar uchafswm o bedair sesiwn ½ diwrnod yr un ar gyfer 6 sefydliad. Pe bai llai o sefydliadau'n cymryd rhan, byddai hyn yn llai.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol.</p> <p>Thema 2</p> <p>Cryfhau a Marchnata'r Marchnadoedd (cydweithredu) (£19,550)</p> <p>Esboniodd JD y byddai'r prosiect yn anelu at wella marchnadoedd Ynys Môn a Gwynedd trwy farchnata cydweithredu a hyrwyddo cynnyrch lleol. Byddai "stondin poeth" yn cael ei ddarparu i alluogi masnachwyr i brofi masnach am gyfnod i annog mwy o gyfranogiad.</p> <p>Nododd MJ fod y Ganolfan dechnoleg Bwyd yn delio â chyfartaledd o 28 o gynhyrchwyr newydd y flwyddyn, y gallai rhai ohonynt fod â diddordeb. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â storio offer, yswiriant a sicrhau bod rheoliadau yn cael eu bodloni. Esboniodd JD y byddai Menter Môn yn</p>	
--	--	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth ond am resymau ymarferol byddai'r marchnadoedd yn storio'r stonidin yn lleol.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol.</p> <p>Gorau o Ogledd Cymru (cydweithredu) £10,185)</p> <p>Esboniodd JD y byddai'r prosiect yn sefydlu'r trefniant llywodraethu a'r strwythurau ar gyfer marchnata a hyrwyddo cynnyrch lleol ar draws Gwynedd a Chonwy, gan amlygu proffil bwyd Gogledd Cymru. Roedd 12 digwyddiad, e.e. gwyliau bwyd a slamiau bwyd, wedi'u cynllunio gydag un digwyddiad o bosib y tu allan i'r ardal.</p> <p>Nodwyd bod gan adran fwyd Llywodraeth Cymru â lifrai sy'n hyrwyddo bwyd Cymreig y gellid ei ddefnyddio.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol.</p> <p><u>Thema 3</u></p> <p>Tŷ Digidol (£15,000)</p> <p>Cyflwynodd BFW y prosiect trwy ddangos ffilm o'r defnydd o dechnoleg i gynorthwyo'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol i fyw'n annibynnol am fwy o amser. Fe'i datblygwyd ar y cyd â Gwasanaethau Cymdeithasol CSYM. Cafwyd sylwadau ynglŷn â diogelwch ar-lein, a soniwyd lle y gellid rheoli cyfarpar gan lais - goleuadau, llenni ac ati - y gallai arwain at ganlyniad anfwriadol, sef bod yr unigolyn yn dod yn fwy eisteddog gydag anfanteision iechyd cysylltiedig.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect yn unfrydol.</p> <p><u>Thema 4</u></p> <p>Bws Trydan (£24,000 + TAW)</p> <p>Esboniodd NJ fod y prosiect hwn yn cael ei ailgyflwyno. Ers i'r aelodau ei drafod yn flaenorol, roedd wedi siarad ag arweinydd y Cyngor a oedd â diddordeb yn y posibilrwydd ar gyfer bysiau cymunedol. Trefnwyd cyfarfod</p>	<p>JD i gysylltu â Dilys Parker yn LIC yngh. defnyddio lifrai</p>
--	--	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>gyda hi a'r pennaeth priffyrdd i drafod ymhellach. Mae'r bysiau'n defnyddio brecio adweithiol i wefru'r batris ac mae'r cysyniad yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn dinasoedd.</p> <p>Y bwriad fyddai cynnwys cwmni bysiau lleol. Awgrymwyd y gallai fod cysylltiadau â Wylfa Newydd a chludo gweithwyr i'r safle.</p> <p>Byddai ymgymryd â'r prosiect yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau gyda'r Cyngor Sir.</p> <p>Cymorth Ynni Cymunedol (£25-30,000)</p> <p>Esboniodd NJ mai fersiwn fach oedd hon o Her Gymunedol Carbon Isel a oedd wedi rhedeg yn Lloegr.</p> <p>Y bwriad yw hyrwyddo arbed ynni a lleihau carbon, gan adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud gan nad oedd yr agenda hon yn symud ar gyflymder digonol i gwrdd â thargedau'r llywodraeth. Roedd hi bellach yn amser i afael yn eu llaw a hyrwyddo.</p> <p>Cafwyd dadl ynglŷn â sut i ddewis cymunedau ac awgrymwyd y gallai un lle roedd diddordeb eisoes a phencampwr lleol yn ei le arwain at ganlyniadau cyflymach.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect.</p>	
8	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hamser. Diolchodd hefyd i'r swyddogion am y prosiectau arloesol a gwahanol a oedd oherwydd eu hansawdd yn eu gwneud yn llawer haws i'w gwerthuso. Roedd yn bleser arbennig nodi bod dros £200,000 wedi'i gymeradwyo ar y diwrnod.</p>	
9	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>26 Ebrill 2018 @ 12:30 pm</p>	
	Gorffen	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust





Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

